Teitl:	**Uwch Ymarferydd Gwaith – Trefniadau Diogelu Amddiffyn Rhyddid a Gofal Cymhleth**
Lleoliad:	**Llys Einion**
Cyfarwyddiaeth:	**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Swydd Rhif:	**BG03791**
Cyflog:	**Gradd 9 (£40,478 - £44,539 pro rata/y flwyddyn)**
Oriau:	**37**
Contract:	**Parhaol**

Crynodeb Swydd
Rydym yn edrych am Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol profiadol a fydd yr Ymarferydd Arweiniol Gwaith Cymdeithasol ar gyfer Trefniadau Diogelu Amddiffyn Rhyddid a Gofal Cymhleth.

Fel uwch ymarferydd, byddwch yn gweithio'n uniongyrchol i'r Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau lechyd Meddwl, Anabledd Dysgu a Chamddefnyddio Sylweddau sy'n gyfrifol am weithredu deddfwriaeth Trefniadau Diogelu Amddiffyn Rhyddid o fewn Blaenau Gwent.

Cymeradwywyd Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol ar gyfer y swydd felly mae angen cerbyd ar gyfer dibenion gwaith a chaiff y deiliad swydd llwyddiannus ei ddynodi yn weithiwr ystwyth fydd yn golygu y byddant yn gweithio yn ein adeiladau Gofal Cymdeithasol ac o gartref.

Hysbyseb Lawn

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn falch i fod wedi datblygu swydd ymarferydd arweiniol i gefnogi ein preswylwyr mwyaf agored i niwed. Dymunwn recriwtio unigolyn uchelgeisiol a rhagweithiol fydd yn llysgennad dros ein hoedolion agored i niwed gan sicrhau y cânt eu diogelu'n briodol a'n bod fel partneriaid statudol yn cefnogi eu barn, dewisiadau ac yn gweithredu er budd gorau iddynt bob amser. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymarferydd gwaith cymdeithasol profiadol sy'n angerddol am weithio o fewn y maes, sydd â gwybodaeth gadarn o ddeddfwriaeth berthnasol a sydd hefyd yn hyderus wrth ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu ac ymwreiddio pwerau deddfwriaethol presennol ac arfaethedig ar draws ein timau gwaith cymdeithasol ehangach yn cynnwys cefnogi gyda trafodion llys.

Fel uwch ymarferydd disgwylir i chi hefyd:

- Goruchwylio staff perthnasol yn cynnwys, lle'n briodol, ddyrannu gwaith a dyletswyddau rheoli eraill
- Byddwch yn cynrychioli'r Adran Gwasanaethau Oedolion mewn digwyddiadau hyfforddiant perthnasol, cyfarfodydd mewnol ac allanol a chynadleddau
- Arwain, datblygu a darparu hyfforddiant perthnasol yng nghyswllt newidiadau deddfwriaethol
- Rheoli cyllidebau a ddyrannwyd
- Cydymffurfio a chadw at ddatganiad polisi yr Awdurdod ar Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn y Gwaith a'r Polisi Cydraddoldeb Corfforaethol

Bydd angen i bob ymgeisydd fod â:

- Cymhwyster gwaith cymdeithasol cydnabyddedig ac os yn bosibl ddyfarniad Asesydd Budd gorau
- Cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru
- Profiad ôl-gymhwyso sylweddol o ofal statudol Oedolion
- Profiad rheoli cyllideb
- Profiad o ymwneud yn uniongyrchol gyda deddfwriaeth Diogelu Oedolion a Gofal Iechyd Cymhleth
- Profiad mewn cadeirio cyfarfodydd cymhleth gyda phartneriaid statudol perthnasol

Cymeradwywyd Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol ar gyfer y swydd felly mae angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith a bydd y deiliad swydd llwyddiannus yn weithiwr ystwyth hybrid fydd yn golygu y bydd yn gweithio yn ein adeiladau Gofal Cymdeithasol ac o gartref.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. B0ydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau: **16/03/2023 – 12:00am, canol nos, canol nos**

Dyddiad Cyfweliadau: **I'w gadarnhau**